Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: **02920 490582**
E-bost: **aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
Ffôn: **01766 513138**
E-bost: **IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: **01267 232577 / 0781 751 9039**
E-bost: **alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: **01792 795888**
E-bost: **undeb@annibynwyr.org**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

Cylch Cei Newydd - *parhad*

cylch wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar yn y ddau ysbyty. Yn y llun gwelir swyddogion capel Pencae yn cyflwyno siec o £1,250 i Sister Rhian Jones, uned cemotherapi, Ward Leri, Bronglais a siec o £1,250 i fudiad canser GOLAU, Ysbyty Singleton, Abertawe.

Croeso

Os byddwch yn digwydd bod ar eich gwyliau yn yr ardal cofiwch fod yna groeso cynnes i ymuno gyda ni mewn addoliad. Mae trefn yr oedfaon i'w gweld ar wefan yr ofalaeth ar *www.capelicei.org*. Yn ychwanegol i'r oedfaon arferol yn ystod mis Awst bydd Cenhadon y Traeth yn cynnal oedfa i'r teulu yng nghapel y Towyn Cei Newydd am 5.15 bob nos Sul.

Gwendoline Evans

Pencae

Cyflwyno Siec i Ward Leri

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Wasg Morgannwg, 27 Ystad Ddiwyd. Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.

PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 149 Rhif 36 Medi 1, 2016 50c.

Eglwysi Annibynnol Cylch Cei Newydd

Criw Crymych yn Nanternis

Nanternis

Roedd yn braf cael croesawu criw o ardal Crymych atom i gapel Nanternis i gynnal yr oedfa ar ddechrau wythnos Cymorth Cristnogol. Cawsom ganddynt gyflwyniad cofiadwy ar y thema 'Galw'r Disgyblion' a oedd yn sicr yn ein herio ac yn ein hatgoffa ni fod pob un ohonom wedi'n galw i wasanaethu'r Arglwydd. Cyfrannwyd y casgliad tuag at waith Cymorth Cristnogol a braf oedd cael cyfle i gymdeithasu dros baned yn y festri ar ôl yr oedfa.

Brynrhiwgaled

Ar Sul olaf yr Wythnos trefnwyd oedfa arbennig i sôn am waith Cymorth Cristnogol gan Euros Lloyd a chymerwyd rhan gan aelodau a ffrindiau. Gwelwyd trwy gymorth cyflwyniad pwynt pŵer fel mae ychydig o arian yn gallu gwneud y fath wahaniaeth i fywydau pobl mewn gwledydd sy'n datblygu.

Pencae

Gwragedd yr ofalaeth fu'n cymryd rhan yn yr Oedfa Weddi yng nghapel Pencae. Gweddïwyd yn arbennig dros blant y byd gyda'r gynulleidfa yn cydadrodd gweddi wedi ei pharatoi gan wragedd Ciwba ar y diwedd - *'Dy blant di ydyn ni, rhan o'th gread annwyl, ac mae inni le yn dy galon. Cynorthwya ni i siarad yn garedig ac i fod yn gymuned faddeugar, i dderbyn pawb fel bodau unigryw a theilwng yn dy olwg, i gadw ein gobaith am ddyfodol cyfiawn a heddychlon, i dderbyn plant fel y cânt freuddwydio, chwerthin, dawnsio a charu heb i neb wahaniaethu yn eu herbyn.'* Cyflwynwyd casgliad yr oedfa yma hefyd tuag at waith Cymorth Cristnogol

Roedd aelodau capel Pencae wedi trefnu bore coffi i godi arian at ddwy elusen deilwng iawn. Roedd rhai o aelodau'r

parhad ar y dudalen gefn

Brynrhiwgaled

Gwerthfawrogiad yn y Cyffordd

Vincent Lloyd Hughes a'r Parchg Gareth Edwards

Ar ddiwedd oedfa'r cymun ar fore Sul, 3ydd Gorffennaf cafwyd cyfle i ddiolch i Mr Vincent Lloyd Hughes am ei holl wasanaeth fel Diacon yng Nghapel Coffa, Cyffordd Llandudno, am hanner canrif. Bu Vince hefyd yn organydd yn yr eglwys am bedwar deg naw o flynyddoedd, yn Ysgrifennydd yr Eglwys am bedwar deg un o flynyddoedd ac yn Arolygwr yr Ysgol Sul a chofnodydd y pwyllgorau am flynyddoedd.

Wrth gyflwyno anrheg iddo ar ran aelodau'r eglwys fel arwydd o werthfawrogiad dwfn o'i wasanaeth mawr dywedodd ei weinidog, y Parchg Gareth Edwards, fod Capel Coffa yn golygu popeth i Vince a nas gellir mesur ei gyfraniad i'w eglwys. Ymatebodd yntau drwy ddweud mai braint fawr ei fywyd oedd cael gwasanaethu ei Arglwydd ac y gobeithiai, os Duw a'i myn, y caiff flynyddoedd eto i barhau gyda'r gwaith sy'n rhoi cymaint o bleser iddo wrth ei gyflawni.

Yn y llun a gyflwynwyd iddo gwelir un o gapeli 'Stiniog sy'n cynrychioli cyfnod ei fagwrfa a'i gapel yno, oedd yn ganolbwynt i'w fywyd, a'r dylanwadau dyrchafol a fu arno yn y blynyddoedd cynnar. Wedi'r oedfa aeth pawb i'r ysgoldy i weld Vince yn torri'r gacen a baratowyd ac i fwynhau paned a sgwrs yn ei gwmni ac yng nghwmni ei deulu. Roedd hwn yn achlysur llawen iawn i holl aelodau Capel Coffa.

W. Gareth Edwards

Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Llanuwchllyn, 2016

Dyma'r olaf mewn cyfres o erthyglau ymddangosodd yn ystod mis Awst sydd yn grynodeb o adroddiad blynyddol Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr sef y Parchg Dr Geraint Tudur.

O ystyried yr holl adnoddau dynol hyn yr wyf wedi cyfeirio atynt, a'r adnoddau eraill sydd o fewn ein cyrraedd fel Undeb, mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn cael fy nghalonogi. Yn wir, mae cymaint o'n plaid, a chymaint mor gefnogol, a chymaint sy'n ymroi iddi yn eu hamrywiol ardaloedd, fel fy mod yn teimlo'n bur hyderus wrth sôn yn awr am y dyfodol. Carwn awgrymu, nid mewn ffordd gyhuddgar ond mewn ymdrech i ddeall ein sefyllfa, mai dwy o'n problemau mwyaf yw ansawdd ein ffydd a'n diffyg hyder.

Y Ffordd

Dyna pam y mae'r cynllun y mae'r Parchg Dr Noel Davies wedi ei baratoi yn un a ddylai'n cyffroi. I weithio ochr yn ochr â'n Rhaglen Datblygu, ac fel rhan ohoni, bwriad cynllun *Y Ffordd* yw meithrin ffydd a hyder yn ein plith. Gan dynnu ar ewyllys da llu mawr o bobl o bob rhan o'r wlad, a harnesu'r amrywiol adnoddau sydd gennym, defnyddio'r hyn yr ydym wedi ei ddysgu yn *Arolwg y Cyfundebau*, arfogi ein hunain â'r arfau y mae Duw wedi eu darparu ar ein cyfer, a chael cydweithrediad CWM a Choleg yr Annibynwyr Cymraeg, y gobaith yw byddwn yn gallu adeiladu'n gilydd er mwyn i ni i gyd fedru gwneud gwahaniaeth.

Blwyddyn y Beibl Byw

Gan ddechrau gyda Blwyddyn y Beibl Byw fel sylfaen, a phwysleisio pwysigrwydd y Beibl, gwna'r cynllun ddefnydd helaeth o fideo i drosglwyddo gwybodaeth, a hynny er mwyn ennyn trafodaeth. Mae clywed pobl yn sgwrsio am Gristnogaeth, yn trafod eu ffydd, a rhannu eu profiadau wedi mynd yn beth prin, ac os am weld torri'r tawelwch a magu hyder mewn pobl iddynt fedru siarad am eu hargyhoeddiadau, yna mae'n rhaid i ni ddechrau'r sgwrs. O gael pobl i ddechrau siarad, gallwn wedyn adeiladu ar sylfaen Blwyddyn y Beibl Byw, a'r flwyddyn nesaf, blwyddyn pumcanmlwyddiant y Diwygiad Protestannaidd, fynd ymlaen i drafod sut yr ydym yn *byw'r Beibl*. Wedi hynny, fe ddaw'r drafodaeth am *rannu'r Beibl*, a ninnau'n cofio daucanmlwyddiant glaniad y cenhadon ym Madagascar. Yn y bedwaredd flwyddyn, gall y drafodaeth droi at ein gofal dros bethau fel cyfiawnder, heddwch a'r amgylchedd a'r angen i ni fod yn ymarferol ac yn weithredol wrth ymhél â hwy. Mae hwn yn gynllun cynhyrfus fydd yn cael ei lansio ym mis Medi.

Prinder Gweledigaeth

Rwyf wedi treulio peth amser yn ddiweddar uwchben 1 Samuel 3. Yno, dywedir fod cyfnod cynnar Samuel yn un pryd 'yr oedd gair yr Arglwydd yn brin, a gweledigaeth yn anfynych'. Gwyddom yn iawn sut beth yw byw mewn cyfnod felly. Nid awgrymu yr ydym nad oes neb yn pregethu'r Efengyl, ond awgrymu nad yw'r grym hwnnw sy'n troi'n geiriau egwan ni yn air nerthol yr Arglwydd i'w weld yn ein plith. Yr ydym yn ei chael yn hawdd i deimlo fel Eli, oedd yn cael ei boeni gan y Philistiaid, ei lethu gan anfadwaith ei feibion, ei wasgu gan dlodi ysbrydol ei bobl, a'i ofidio gan y ffaith ei fod yn mynd yn hen. Ym mhob ffordd, mae'n ymddangos fod y tywyllwch yn cau amdano. Ac eto, meddir yn adnod 3, 'nid oedd lamp yr Arglwydd wedi diffodd eto', ac nid yw wedi diffodd yn ein plith ninnau chwaith.

Ni Ddiffydd

Hyd yn oed os yw'r fflam wedi llosgi'n isel mewn llawer man, nid yw'r lamp wedi diffodd eto; hyd yn oed os yw'n ymddangos fod y golau'n pylu, nid yw'r lamp wedi diffodd eto. Hyd yn oed os yw pobl Dduw wedi tawelu, y canu heb fod mor soniarus ag y bu, y niferoedd wedi lleihau, y sglein wedi pylu, nid yw lamp yr Arglwydd wedi diffodd eto. A dyna pam yr ydym yn dal ati, yn dal ati i gyhoeddi gair yr Arglwydd, i geisio gweledigaeth, oherwydd ein bod yn gwybod ar sail y dystiolaeth sydd gennym yn ein Beibl nad un i'n hanghofio mo'n Duw ni, nad un i adael gwaith ar ei ganol mo'n Duw ni, ac nad un i adael i'r lamp ddiffodd yma yng Nghymru mo'n Duw ni. A dyna pam yr wyf yn eich gwahodd i gydgerdded â mi am flwyddyn arall, i ymdrechu am flwyddyn arall, i gydweithio am flwyddyn arall, am fod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn werth bod ynglŷn â fo. Yr ydym yn ynglŷn â phethau Duw, yn ceisio gwasanaethu Duw, gyda phobl Duw, gydag adnoddau y mae Duw wedi eu rhoi i ni. Felly ymunwch â mi yn yr ymdrech, yn y weddi ac yn yr ymbil. Nid yw lamp yr Arglwydd wedi diffodd eto.

Can Mlwyddiant Eglwys y Tabernacl Porthcawl

Ar ddydd Sul Medi 18fed 2016 bydd y Tabernacl Porthcawl yn dathlu canmlwyddiant sefydlu'r eglwys.

Am 10.30 y.b. cynhelir Oedfa Gymun, a'r pregethwr gwadd yw'r Parchg Ddr Geraint Tudur, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr.

Yn dilyn yr oedfa bydd cyfle i gymdeithasu yn y Neuadd dros baned a lluniaeth ysgafn, cyn ymgynnull yn ôl yn y capel am 2.30.y.h. i barhau'r dathlu trwy gyfrwng Cymanfa Ganu.

Estynnwn wahoddiad cynnes i chi ymuno gyda ni yn ein dathliadau.

Ar ran yr eglwys
Parchg Rosan Saunders, Gweinidog
Tom Price, Ysgrifennydd.

Henaduriaeth Dyffryn Clwyd a Gofalaeth Bro Aled

Bydd cyfle i ddiolch am gyfraniad a gweinidogaeth
Y PARCH. O. ANEURIN OWEN
B.D. Dip. ACC
a'i ollwng o'i gyfrifoldebau fel gweinidog
nos Sul, Medi 11eg
am 6:00 o'r gloch
yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan

Croeso cynnes i bawb

Gofalaeth Bro Aled

Llawenydd yw eich hysbysu o gyfarfod
ORDEINIO A SEFYDLU
DR RHODRI GLYN B.A. PhD
yn weinidog i'r Arglwydd Iesu
dydd Sadwrn, Medi 17eg
am 2:00 o'r gloch
yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan

Croeso cynnes i bawb

Barn Annibynnol

Blwyddyn y Newidiadau Mawr

Geraint Rees

Tybed faint ohonoch chi sydd wedi cael pasbort newydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? Wrth gael dogfen newydd bob degawd mae'r lluniau yn dangos ôl treigl amser ar ein hwynebau. Mae gen i gyfres erbyn hyn yn fy nhywys o'r dyn ifanc tenau, llydan ei wên mewn llun du a gwyn i'r dyn canol oed moel a'i enau lluosog mewn lliw. Mae'r gyfres o basbortau yn dangos y newid mewn ffordd na all y drych o ddydd i ddydd ei gyfleu, achos mor araf yw'r newid.

Flynyddoedd yn ôl cofiaf gael fy nghyfarch gan henwr o China gyda'r dymuniad "Boed i ti fyw mewn amseroedd diddorol". Mae'n debyg mai, iddo ef, dyma un o fendithion mawr bywyd – cael byw mewn amser diddorol. Gwelodd ei wlad yn symud o economi wledig dan ormes i drefn gomiwnyddol genedlaetholgar Mao Tse Dong a helbulon sefydlu gwladwriaeth un blaid, canoli grym yn nwylo'r comiwnyddion a dienyddio llais gwrthryfel ym mhob cymuned. Hyderaf fod yr hen ŵr o China wedi byw trwy amseroedd diddorol.

Beth amdanoch chi a finne?

A ninnau dipyn o'r ffordd trwy 2016 tybiaf y gallwn ddweud ein bod ni'n byw mewn cyfnod o chwyldro. Mewn dim o amser gwelsom gonsensws canol yr ugeinfed ganrif yn diflannu fel gwlith y bore, a pholareiddio annisgwyl wedi cymryd ei le. O fewn i Gristnogaeth mae gennym fwy o amrywiaethau o'r ffydd a'r eglwys nag oedd gan Heinz. Ar yr un llaw gwelwn ail-lunio Cristnogaeth i siwtio'r rhai sy'n dweud mai cyfoeth personol ac iechyd da yw'r arwyddion ein bod ni'n dilyn Iesu yn iawn, ac ar y llaw arall gwelir y rheiny sy'n aberthu eu hiechyd a'u cyfoeth er mwyn gwasanaethu cyd-ddyn yn enw Iesu. A all y ddau draddodiad gyd-fyw?

O fewn maes deallusol ehangach gwelwn dwf sylweddol mewn anffyddiaeth – a hynny yn aml mewn ymateb i grefydd anghredadwy ac anneallus a bedlerwyd dros y ganrif ddiwethaf. Rwy'n tybio fod nifer fawr o ddarllenwyr y Tyst yn anghyffyrddus gyda'r ddau begwn yma.

O fewn perthynas y gwledydd, gwelwn freuddwydion cenedlaethau o unigolion a bregethodd bwysigrwydd y frawdoliaeth a chwaeroliaeth ryngwladol yn cael eu herio gan boblogaethau sy'n dymuno ail-sefydlu gwladwriaethau ynysig. Mae ail-ddiffinio perthynas gwledydd a'i gilydd gwta 70 mlynedd wedi rhyfel uffernol yn her sylweddol i ni gyd. Mae 'na Gristnogion Brexit a Trump yn y byd, sy'n peri penbleth difrifol i Gristnogion eraill.

Ar ein stepen drws ein hunain gwelwyd diwedd i'r consensws oedd yn dweud fod estyn llaw i'r gwan "yn beth da". Ers rhai blynyddoedd clywyd lleisiau yn dadlau na ddylid cynnal cyllideb i gefnogi'r gwledydd tlawd. Fodd bynnag, lleisiau'r ymylon fuon nhw. Erbyn hyn mae'r lleisiau hyn yn rhan o'r prif lif yn ein gwlad. Mae 'na bapurau dyddiol sydd yn ffeindio'u ffordd i mewn i gartrefi diaconiaid yng Nghymru sy'n rhedeg tudalen flaen reolaidd sy'n bwrw gwawd ar y gyllideb datblygiad rhyngwladol - sydd yno i helpu creu byd tecach ac i ymateb i argyfyngau. Hyd yn oed yn fwy echrydus na hyn yw'r tensiwn sydd wedi codi rhwng y bobl hynny sy'n ei gweld hi'n ddyletswydd i gynnig llaw i ffoaduriaid, a'r unigolion hynny sydd am atgyfnerthu ffiniau a gwrthod estyn llaw. Ugain mlynedd yn ôl byddai neb yn credu y gallai rywun sefyll ar blatfform cyhoeddus a denu cefnogaeth sylweddol i safbwyntiau mor ddidostur at ffoaduriaid. Elfen arall sydd wedi gweld cynnydd sylweddol mewn cyfnod cymharol fyr yw'r ffasiwn o wawdio ysgolheictod. Wele Trump ar hyn o bryd yn bychanu unrhyw un sy'n defnyddio geiriau mwy nag unsill i wneud sylw ar eu cymdeithas hwythau, a thueddiad tebyg a ddatblygodd ar yr ynysoedd hyn adeg y refferendwm. Wedi milenia o edmygu pobl byd dysg mae pethau nawr yn fregus.

Ble mae hyn yn gadael ein heglwysi?

Y gwir plaen yw ei bod yn argyfwng go iawn arnom ni. Nid ar yr eglwysi, ond arnom Ni fel cymdeithas. Mae argyfwng yr eglwysi yn hysbys i ni ers canrif gyfan. Mae'r drafferth nawr yn lletach. Yn ei stori fer "Blwyddyn Lwyddiannus" dywed D. J. Williams rhywbeth i'r perwyl ei bod yn hawdd bod yn Gristion mewn byd lle mae pawb yn Gristnogion. Digon gwir efallai. Mae'r her sy'n ein hwynebu ni nawr yn un wirioneddol gymhleth. **Cristnogaeth y 57 Varieties**

Rwy'n siŵr eich bod chi, fel fi, wedi blino ar orfod dweud "na, dwi ddim yn credu hynny" pan fo cydweithwyr neu eraill yn dweud pethau fel "wrth gwrs, fel Cristion byddi di'n credu fod y byd wedi ei greu mewn chwe diwrnod..... ddim yn credu mewn esblygiad..... yn credu fod Duw yn mynd i achub plant mewn rhyfel..... does dim ots am y byd hwn achos mae dy fryd ar yr un nesaf..... yn gwrthod pobl o achos eu rhywioldeb....." ac yn y blaen. Mae'r 57 Varieties gan Heinz yn fach o'u cymharu â chymhlethdod agweddau a chredoau'r eglwys Gristnogol. Yn wir, oes yna'r fath beth ag "Eglwys Gristnogol" erbyn hyn, neu just miliynau o "eglwysi sy'n eu galw eu hunain yn Gristnogol?"

Rhai blynyddoedd yn ôl aeth grŵp traws ffydd ati i geisio diffinio'r tir cyffredin rhwng crefyddau mawr y byd. Wedi cyfnod o drafod a miloedd o gyfraniadau fe grëwyd y Charter for Compassion (*www.charterforcompassion.org*.Yr hyn a ddaeth yn amlwg iddyn nhw oedd mai *tosturi/cydymdeimlad* yw'r tir cyffredin ar draws holl grefyddau mawr y byd. A fyddai'n briodol erbyn hyn i ddisgyblion Crist yn yr 21ain ganrif geisio diffinio'r ffydd mewn ffordd sydd yn ffyddlon i Grist ac yn berthnasol i'r oes hon? Neu ydy'r 57 Varieties wedi tyfu yn rhy bell oddi wrth ei gilydd?

Charter for Compassion

Wrth weld y polareiddio yn ein byd a'n cymdeithas, onid yw hi'n ddyletswydd arnom ni yn fyd-eang i gytuno ar rai pethau creiddiol a symud ymlaen gyda'n gilydd er lles ein byd, ein heglwysi a'n Creawdwr? Efallai y byddai'n gam digon chwyldroadol i ni ddechrau a gorffen ein maniffesto wrth geisio cael pawb i gytuno i Matthew 22 –

"Rwyt i garu'r Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid a'th holl feddwl. Dyma'r gorchymyn cyntaf a'r pwysica. Ond mae yna ail un sydd yr un fath: 'Rwyt i garu dy gymydog fel rwyt ti'n dy garu dy hun. Mae'r cwbl sydd yn y Gyfraith a'r Proffwydi yn dibynnu ar y ddau orchymyn yma."

Yng nghanol yr holl newidiadau a'r ansicrwydd, byddai cael pob un ohonom yn sefyll ar hyn yn "change" go dda hefyd.

Geraint Rees

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Y FFORDD

Cyffordd Llandudno - 15 Medi am 7.00

Bethania, Tymbl - 26 Medi am 7.00

Mae cynllun newydd Y Ffordd yn adnodd cyffrous, defnyddiol, ymarferol a hwyliog i helpu eich eglwys chi ar y daith unigryw gyda Duw.

Bydd yn para am bedair blynedd, gyda thema gwahanol bob blwyddyn:

- Ffyrdd drwy'r Beibl
- Y Ffordd y daethom
- Tystiolaeth Pobl y Ffordd
- Gofal Pobl y Ffordd

Dewch i wrando, holi a dysgu sut mae dilyn Y Ffordd.